



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Canllawiau, gan gynnwys Canllawiau Statudol, ar gyfer Prif Gynghorau a Chynghorau Cymuned a Thref yng Nghymru

Mesur Llywodraeth Leol
(Cymru) 2011

Rhan 7: Cymunedau a
Chynghorau Cymuned

Mawrth 2014

Cynnwys

Cyflwyniad	3
Pennod 1 Cyfarfodydd Cymunedol a Phleidleisio Cymunedol	3
Pennod 2 Trefniadaeth Cymunedau a'u Cynghorau	6
Pennod 3 Cyfethol Aelodau Cynghorau Cymuned	9
Pennod 4 Penodi Cynrychiolwyr Ieuenctid Cymunedol	13
Pennod 5 Adolygu Ardaloedd Cymunedol a Threfniadau Etholiadol	16
Pennod 6 Pwerau Cynghorau Cymuned i Hybu Llesiant	18
Pennod 7 Grantiau i Gynghorau Cymuned	20
Pennod 8 Cytundebau Siarter Enghreifftiol rhwng Awdurdodau Lleol a Chynghorau Cymuned	21
Chapter 9 Cynlluniau ar gyfer Achredu Ansawdd mewn Llywodraeth Gymunedol	23

Cyflwyniad

Mae Rhan 7 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 ('y Mesur') yn cynnwys darpariaethau sy'n rhoi effaith i ymrwymadau Llywodraeth Cymru i ddatblygu a chryfhau rôl cynghorau cymuned yng Nghymru, gan eu galluogi i ddarparu ystod ehangach o wasanaethau a gweithredoedd yn lleol yn ogystal â chynyddu effeithiolrwydd eu rôl gynrychioladol a'u gallu i weithio mewn partneriaeth â chyrff eraill.

Daeth y darpariaethau hyn yn sgîl argymhellion astudiaeth ar gynghorau cymuned yng Nghymru, a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru ac a gynhaliwyd yn 2003, gan Brifysgol Cymru, Aberystwyth: Sefydliad Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear. Teitl yr astudiaeth oedd *Astudiaeth Ymchwil i Rôl a Swyddogaethau Cynghorau Cymuned a Thref yng Nghymru a'u Potensial i'r Dyfodol ('Astudiaeth Aberystwyth')*.

Roedd Astudiaeth Aberystwyth yn adolygu mewn ffordd gynhwysfawr y gweithgareddau y bydd cynghorau cymuned yn ymgymryd â hwy ledled Cymru. Casgliad yr adroddiad oedd bod pwysau cynyddol i ddiwygio strwythur ac arferion gweithio cynghorau cymuned. Cyfeiriai'r adroddiad at y cyfleoedd sydd ar gael i gynghorau cymuned, y cyfyngiadau y maent yn gweithio o'u mewn a chynigion ar gyfer cryfhau eu rolau.

Roedd ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad a'r datganiad polisi llywodraeth leol wedyn yn 2007, 'Rhannu Cyfrifoldeb', yn rhestru ystod o ymrwymadau sydd wedi tywys polisiâu a gweithredu yn y maes hwn ers hynny. Mesur 2011 oedd y cyfrwng a ddefnyddiwyd ar gyfer yr agweddau hynny yr oedd gofyn cael prif ddeddfwriaeth i'w rhoi ar waith.

Mae'r ddogfen ganllawiau hon yn cynnwys canllawiau statudol ynghylch cyfethol aelodau cynghorau cymuned (pennod 3) a phenodi cynrychiolwyr ieuencid cymunedol (pennod 4). Wrth roi swyddogaethau ar waith o dan y darpariaethau y mae'r penodau hyn yn berthnasol iddynt, rhaid rhoi sylw i'r canllawiau hyn.

Ar gyfer pob un o'r penodau eraill, mae'r canllawiau hyn yn crynhoi'r darpariaethau sydd yn y Mesur a, lle bo'n briodol, maent yn rhoi gwybodaeth am y sefyllfa ddiweddaraf o ran mabwysiadu'r darpariaethau hynny. Dylid nodi ei bod yn bosibl y datblygir canllawiau ar wahân, rhai statudol ac anstatudol, i ategu gwahanol benodau'r rhan hon o'r Mesur. Bydd y canllawiau hyn ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.

At ddibenion y canllawiau hyn, mae prif gyngor yn cyfeirio at gynghorau sir neu gynghorau bwrdeistref sirol, ac mae cyngor cymuned yn cyfeirio at unrhyw gyngor cymuned neu dref.

Pennod 1 Cyfarfodydd Cymunedol a Phleidleisio Cymunedol

Cyflwyniad

- 1.1. Roedd darpariaethau yn Neddf Llywodraeth Leol 1972 ('Deddf 1972') yn caniatáu i nifer fach iawn o etholwyr alw cyfarfod a sbarduno pleidlais. Gallai cynnal pleidlais o'r fath fod yn gostus heb fod dim rheidrwydd ar y prif gyngor na'r cyngor cymuned i lynu wrth y canlyniad.
- 1.2. Mae Pennod 1 o Ran 7 yn diwygio'r trefniadau sydd yn Neddf 1972 ar gyfer galw a sefydlu cyfarfodydd cymunedol a chynnal pleidlais gymunedol yng Nghymru er mwyn sicrhau eu bod yn cynrychioli'r farn leol yn well. Er bod gallu cyngor cymuned i gynnull cyfarfod cymunedol wedi'i gadw, bellach, mae angen cael rhagor o gefnogaeth gan etholwyr os ydynt am gynnull cyfarfod cymunedol neu alw pleidlais.

Darpariaethau'r Mesur

Cynnull cyfarfodydd cymunedol gan gadeirydd y cyngor neu gan ddau gynghorydd.

- 1.3. Caiff cadeirydd y cyngor cymuned neu ddau gynghorydd sy'n cynrychioli'r gymuned ar y cyngor alw cyfarfod cymunedol.
- 1.4. Pan fydd cyfarfodydd cymunedol yn cynnull cyfarfodydd cymunedol fel hyn, rhaid rhoi hysbysiad cyhoeddus ynghylch hynny. Os mater cyffredinol yw busnes y cyfarfod cymunedol, rhaid rhoi o leiaf saith niwrnod o rybudd; os oes a wnelo'r busnes â bodolaeth cyngor cymuned neu â grwpio cymuned â chymunedau eraill, rhaid rhoi deng niwrnod ar hugain o rybudd fan leiaf. Mae'r Mesur hefyd yn dweud pa fanylion y mae gofyn eu cynnwys yn yr hysbysiad a sut y dylid ei gyhoeddi.

Etholwyr llywodraeth leol yn cynnull cyfarfodydd cymunedol

- 1.5. Mae'r Mesur yn cyflwyno trothwyon newydd ar gyfer cynnull cyfarfodydd cymunedol gan etholwyr llywodraeth leol. Er mwyn cynnal cyfarfod cymunedol rhaid iddo gael ei gynnull gan o leiaf 10% o'r etholwyr llywodraeth leol ar gyfer y gymuned honno neu gan 50 o'r etholwyr (os bydd 10% yn fwy na 50 o etholwyr). Os oes cyngor cymuned yn bodoli, rhaid i gyfarfod o'r fath gael ei gadeirio gan gadeirydd presennol y cyngor hwnnw. Lle nad oes unrhyw gyngor cymuned yn bodoli, dylid penodi cadeirydd gan yr etholwyr hynny sy'n mynychu'r cyfarfod cymunedol.
- 1.6. Os oes cyngor cymuned, bydd gofyn i gynnullwyr y cyfarfod hysbysu'r cyngor cymuned ynghylch y cyfarfod. Os nad oes cyngor cymuned, bydd gofyn iddynt hysbysu'r prif gyngor.
- 1.7. Mae'r Mesur yn dweud pa wybodaeth y mae gofyn ei chynnwys yn yr hysbysiad hwn ac mae'n caniatáu i etholwyr sy'n cefnogi'r cynnig aros yn

ddienw os ydynt wedi'u cofrestru'n ddiennw yn y gofrestr etholwyr llywodraeth leol (o dan adran 9B Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983).

- 1.8. At hynny, mae'r Mesur yn caniatáu iddynt hysbysu'r prif gyngor ar ffurf electronig ac mae'n ofynnol i'r prif gyngor ddarparu cyfleusterau ar gyfer cyflwyno'r hysbysiad yn electronig. Mae gofyn i'r cyngor hefyd bennu'r gofynion ar gyfer hysbysiadau electronig, megis dilysu llofnod electronig, ac mae gofyn iddo roi cyhoeddusrwydd priodol i'r gofynion hyn.
- 1.9. Rhaid i'r cyngor a hysbysir ystyried a yw'r gofynion a bennwyd wedi'u cyflawni ac a lwyddwyd i gyrraedd y trothwy sbarduno cychwynnol. Os bydd y cyngor yn credu nad yw'r gofynion wedi'u cyflawni, rhaid iddo hysbysu'r cynullwyr a dweud pam mae'n credu hynny. Os bydd y cyngor yn credu bod y gofynion wedi'u cyflawni, yna rhaid i'r cyngor roi hysbysiad cyhoeddus ynghylch y cyfarfod o fewn deng niwrnod ar hugain.
- 1.10. Os mater cyffredinol yw busnes y cyfarfod cymunedol, rhaid rhoi o leiaf saith niwrnod o rybudd am y cyfarfod; os oes a wnelo'r busnes â bodolaeth cyngor cymuned neu â grwpio cymuned â chymunedau eraill, rhaid rhoi deng niwrnod ar hugain o rybudd fan leiaf. Mae'r Mesur hefyd yn dweud pa fanylion y mae gofyn eu cynnwys yn yr hysbysiad a sut y dylid ei gyhoeddi.

Pleidleisio Cymunedol

- 1.11. Mae'r Mesur yn cyflwyno trothwyon newydd pan fydd cyfarfod cymunedol yn galw am bleidlais gymunedol. Rhaid i fwyafrif yr etholwyr sy'n bresennol fynnu'r bleidlais gymunedol a rhaid i'r mwyafrif hwnnw gyfateb i o leiaf 10% o gyfanswm etholaeth llywodraeth leol y gymuned honno neu 150 o'r etholwyr (os bydd 10% o'r etholwyr yn fwy na 150). Pennir gwahanol drothwyon ar gyfer galw am bleidlais ynghylch bodolaeth cyngor cymuned neu grwpio cynghorau cymuned – gweler pennod 2.
- 1.12. Rhaid i'r swyddog canlyniadau roi hysbysiad ysgrifenedig i swyddog monitro'r prif gyngor perthnasol ynglŷn â'r cwestiwn a ofynnir yn y bleidlais lle'r oedd mwyafrif y sawl a bleidleisiodd o blaid y cwestiwn hwnnw. Y prif gyngor perthnasol yw'r cyngor dros yr ardal y gymuned lle y cynhaliwyd y cyfarfod cymunedol lle y galwyd am y bleidlais. Nid oes yn rhaid rhoi gofynion yr hysbysiad ar waith os yw'r bleidlais ynghylch math o gwestiwn a oedd wedi'i bennu mewn rheoliadau gan Weinidogion Cymru.
- 1.13. O fewn 14 diwrnod ar ôl i'r swyddog monitro sy'n derbyn y cais gael yr hysbysiad, rhaid iddo benderfynu i swyddogaethau pa gyngor y mae cwestiwn y bleidlais yn berthnasol. Yna, rhaid i'r swyddog monitro roi hysbysiad ysgrifenedig i'r cyngor perthnasol cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol ar ôl dyddiad y penderfyniad a chynnwys yn yr hysbysiad hwnnw'r rhesymau dros y penderfyniad. Nid oes unrhyw

gyfyngiad ar y math o fater y gellir ei godi mewn pleidlais cymunedol. Os nad yw cwestiwn pleidlais yn ymwneud â swyddogaethau'r naill gyngor na'r llall, dylai'r swyddog monitro hysbysu'r trefnydd na fyddai gan y naill gyngor na'r llall y pŵer i gymryd unrhyw gamau pe bai canlyniad y bleidlais yn gadarnhaol. Os yw cwestiwn y bleidlais yn ailadrodd cwestiwn blaenorol, neu os yw, ym marn y swyddog monitro, yn un gwamal, dylid atgoffa'r trefnydd mai'r gymuned ei hun fydd yn talu cost y bleidlais ganlyniadol.

- 1.14. Os bydd cyngor cymuned yn cael ei hysbysu gan swyddog monitro ynghylch cwestiwn pleidlais gymunedol, bydd gofyn iddo ystyried pa gamau, os o gwbl, y dylai eu cymryd mewn ymateb i'r bleidlais yn un o gyfarfodydd y cyngor cymuned. Rhaid cynnal y cyfarfod o fewn cyfnod o chwech wythnos o'r adeg pan roddwyd yr hysbysiad. Os bydd angen, dylai cadeirydd y cyngor cymuned roi ei bŵer ar waith i alw cyfarfod eithriadol o'r cyngor cymuned er mwyn cydymffurfio â'r gofyniad hwn.
- 1.15. Nid oes disgwyliad cyfreithiol i'r cyngor cymuned gymryd unrhyw gamau i ymateb i bleidlais. Fodd bynnag, rhaid i'r cyngor gymryd pob cam rhesymol i hysbysu pob unigolyn sydd wedi cynnull y cyfarfod cymunedol ynglŷn â pha gamau, os o gwbl, y mae'r cyngor yn bwriadu eu cymryd i ymateb i'r bleidlais, neu i unrhyw ran o'r bleidlais a ystyriwyd yn y cyfarfod. Rhaid rhoi'r hysbysiad hwn ar ffurf ysgrifenedig cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol ar ôl cynnal y cyfarfod. Rhaid i'r cyngor hefyd roi'r wybodaeth hon i'r prif gyngor ynglŷn â'r bobl hynny a gynullodd y cyfarfod cymunedol ac sydd wedi'u cofrestru'n ddienw ar y gofrestr etholwyr llywodraeth leol.

Canllawiau Anstatudol

- 1.16. Bwriad Llywodraeth Cymru yw datblygu a chyhoeddi canllawiau ar wahân ynglŷn â phleidleisio cymunedol.
- 1.17. Cyhoeddir y canllawiau hyn ar gyfer ymgynghori maes o law a byddant ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.

Pennod 2 Trefniadaeth Cymunedau a'u Cyngorau

Cyflwyniad

- 2.1. Roedd ymateb Llywodraeth Cymru i Astudiaeth Aberystwyth yn dweud y byddai'n deddfu i'w gwneud yn haws i gymunedau sefydlu cyngorau cymuned lle nad ydynt eisoes yn bodoli ac i'w gwneud yn ofynnol cael rhagor o gefnogaeth o blaid cynnig i ddiddymu cyngor sy'n bodoli eisoes.
- 2.2. Mae pennod 2 o Ran 7 yn diwygio'r darpariaethau sydd yn Neddf 1972 i ddarparu trothwy is ar gyfer penderfyniad gan gyfarfod cymunedol i alw am bleidlais ynghylch sefydlu cyngor cymuned, ac i ddwy ran o dair o leiaf o'r rheini sy'n pleidleisio mewn pleidlais fod o blaid diddymu cyngor. Manteisiwyd ar y cyfle hefyd yn y Mesur i ddiddymu darpariaethau presennol Deddf 1972 ynghylch creu, grwpio a diddymu cyngorau ac i'w hail-lunio ar ffurf haws ei deall.

Darpariaethau'r Mesur

Sefydlu cyngor cymuned newydd

- 2.3. Caiff cyfarfod cymunedol wneud cais i'w brif gyngor am orchymyn i sefydlu cyngor cymuned newydd lle nad oes gan y gymuned gyngor cymuned ar wahân. Cyn gwneud cais o'r fath, rhaid i'r cyfarfod cymunedol gyflawni amodau penodol.
- 2.4. Yn gyntaf, rhaid i'r cyfarfod cymunedol fod wedi gwneud penderfyniad effeithiol i bleidleisio ar gynnig i sefydlu cyngor i'r gymuned. Ni fydd penderfyniad i gynnal pleidlais o'r fath ond yn effeithiol os bydd o leiaf 10% o gyfanswm etholaeth llywodraeth leol y gymuned honno, neu 150 o'r etholwyr (os bydd 10% o'r etholwyr yn fwy na 150), yn bresennol ac yn pleidleisio yn y cyfarfod.
- 2.5. Yn ail, ni ellir cynnal y bleidlais cyn diwedd y cyfnod o 42 diwrnod sy'n dechrau ar y diwrnod pan benderfynwyd cynnal y bleidlais. Yn drydydd, ni cheir cynnal pleidlais o fewn dwy flynedd i bleidlais flaenorol a arweiniodd at wrthod cynnig i sefydlu cyngor cymuned, ac, yn olaf, rhaid i fwyafrif y rheini sy'n pleidleisio yn y bleidlais fod o blaid y cynnig i sefydlu cyngor cymuned.
- 2.6. Pan ddaw'r cais i sefydlu cyngor cymuned newydd, rhaid i'r prif gyngor ystyried a yw'r amodau gofynnol wedi'u cyflawni. Os bydd y cyngor yn fodlon bod yr amodau wedi'u cyflawni, rhaid gwneud y gorchymyn a geisiwyd, yn ddarostyngedig i unrhyw ddarpariaethau sy'n angenrheidiol ym marn y prif gyngor.

Diddymu cyngor cymuned

- 2.7. Caiff cyfarfod cymunedol wneud cais i'w brif gyngor am orchymyn i ddiddymu cyngor cymuned. Cyn gwneud cais o'r fath, rhaid i'r cyfarfod cymunedol gyflawni amodau penodol.
- 2.8. Yn gyntaf, rhaid i'r cyfarfod cymunedol fod wedi gwneud penderfyniad effeithiol i bleidleisio ar gynnig i ddiddymu cyngor ar gyfer y gymuned honno. Ni fydd pleidlais o'r fath ond yn effeithiol os bydd o leiaf 30% o gyfanswm etholaeth llywodraeth leol y gymuned honno, neu 300 o'r etholwyr (os bydd 30% o'r etholwyr yn fwy na 300), yn bresennol ac yn pleidleisio yn y cyfarfod.
- 2.9. Yn ail, ni ellir cynnal y bleidlais cyn diwedd y cyfnod o 42 diwrnod sy'n dechrau ar y diwrnod pan benderfynwyd cynnal y bleidlais.
- 2.10. Yn drydydd, ni cheir cynnal pleidlais o fewn dwy flynedd i bleidlais flaenorol a arweiniodd at wrthod cynnig i ddiddymu cyngor cymuned, ac yn olaf, rhaid i fwyafrif y rheini sy'n pleidleisio yn y bleidlais fod o blaid cynnig i ddiddymu'r cyngor ar gyfer y gymuned.
- 2.11. Pan ddaw'r cais i ddiddymu cyngor cymuned, rhaid i'r prif gyngor ystyried a yw'r amodau gofynnol wedi'u cyflawni. Os bydd y cyngor yn fodlon bod yr amodau wedi'u cyflawni, rhaid gwneud y gorchymyn a geisiwyd

Grwpio cymunedau o dan un cyngor cymuned

- 2.12. Caiff cyfarfod cymunedol wneud cais i'w brif gyngor am orchymyn i grwpio'r gymuned gyda chymuned neu gymunedau gerllaw sydd yn yr un brif ardal â'r gymuned, o dan gyngor cymuned cyffredin. Cyn gwneud cais o'r fath, rhaid i'r cyfarfod cymunedol gyflawni amodau penodol.
- 2.13. Yn eu hanfod, yr un yw'r amodau â'r rheini ar gyfer sefydlu cyngor cymuned newydd (gweler paragraffau 2.4 a 2.5 uchod), ond mae yna ofyniad ychwanegol, sef ei bod yn rhaid gwneud ceisiadau ar y cyd â'r cymunedau eraill sy'n rhan o'r grŵp arfaethedig.
- 2.14. Pan ddaw'r cais, rhaid i'r prif gyngor ystyried a yw'r amodau gofynnol wedi'u cyflawni. Os bydd y cyngor yn fodlon bod yr amodau wedi'u cyflawni, rhaid gwneud y gorchymyn a geisiwyd, yn ddarostyngedig i unrhyw ddarpariaethau sy'n angenrheidiol ym marn y prif gyngor, a rhaid i'r gorchymyn a wneir bennu enw'r grŵp yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Ychwanegu cymuned at grŵp o gymunedau o dan gyngor cymuned cyffredin

- 2.15. Caiff cyfarfod cymunedol wneud cais i'w brif gyngor am orchymyn i ychwanegu cymuned at grŵp o gymunedau, a'r rheini i gyd yn yr un brif ardal â'r gymuned, ac y mae cyngor cymuned cyffredin ar gael ar eu cyfer. Cyn gwneud cais o'r fath, rhaid i'r cyfarfod cymunedol gyflawni amodau penodol.

2.16. Yn eu hanfod, yr un yw'r amodau â'r rheini ar gyfer sefydlu cyngor cymuned newydd (gweler paragraffau 2.4 a 2.5 uchod), ond mae yna ofyniad ychwanegol sef ei bod yn rhaid i'r holl gymunedau sy'n rhan o'r grŵp gydsynio.

2.17. Pan ddaw'r cais, rhaid i'r prif gyngor ystyried a yw'r amodau gofynnol wedi'u cyflawni. Os bydd y cyngor yn fodlon bod yr amodau wedi'u cyflawni, rhaid gwneud y gorchymyn a geisiwyd, yn ddarostyngedig i unrhyw ddarpariaethau sy'n angenrheidiol ym marn y prif gyngor, a rhaid i'r gorchymyn a wneir bennu enw'r grŵp yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Diddymu grŵp o gymunedau

2.18. Caiff cyfarfod cymunedol wneud cais i'w brif gyngor am orchymyn i ddiddymu grŵp o gymunedau. Cyn gwneud cais o'r fath, rhaid i'r cyfarfod cymunedol gyflawni amodau penodol.

2.19. Yn eu hanfod, yr un yw'r amodau â'r rheini ar gyfer diddymu cyngor cymuned (gweler paragraffau 2.8 a 2.9 uchod), ac mae gofyn i bob cymuned yn y grŵp ystyried a phleidleisio ar y cynnig ar wahân.

2.20. Pan ddaw'r cais, rhaid i'r prif gyngor ystyried a yw'r amodau gofynnol wedi'u cyflawni. Os bydd y cyngor yn fodlon bod yr amodau wedi'u cyflawni, rhaid gwneud y gorchymyn a geisiwyd, yn ddarostyngedig i unrhyw ddarpariaethau sy'n angenrheidiol ym marn y prif gyngor.

Gwahanu cymuned oddi wrth grŵp o gymunedau

2.21. Caiff cyfarfod cymunedol cymuned sydd wedi'i chynnwys mewn grŵp o gymunedau, wneud cais i'w brif gyngor am orchymyn i wahanu'r gymuned oddi wrth y grŵp. Cyn gwneud cais o'r fath, rhaid i'r cyfarfod cymunedol gyflawni amodau penodol.

2.22. Yn eu hanfod, yr un yw'r amodau â'r rheini ar gyfer diddymu cyngor cymuned (gweler paragraffau 2.8 a 2.9 uchod).

2.23. Pan ddaw'r cais, rhaid i'r prif gyngor ystyried a yw'r amodau gofynnol wedi'u cyflawni. Os bydd y cyngor yn fodlon bod yr amodau wedi'u cyflawni, rhaid gwneud y gorchymyn a geisiwyd, yn ddarostyngedig i unrhyw ddarpariaethau sy'n angenrheidiol ym marn y prif gyngor.

Newid trothwyon pleidleisio yng nghyswllt trefniadaeth cynghorau cymuned

2.24. Mae'r Mesur yn cyflwyno darpariaethau newydd sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i newid y trothwyon, drwy orchymyn, ar gyfer y gweithdrefnau sefydlu a diddymu amrywiol, a thrwy hynny eu galluogi i newid pethau yng ngoleuni'r profiad o roi'r trothwyon newydd hynny ar waith.

Pennod 3 Cyfethol aelodau Cyngorau Cymuned

Canllawiau statudol a gyhoeddir yn unol ag adran 117 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011

Cyflwyniad

- 3.1. Roedd Astudiaeth Aberystwyth yn cyfeirio at bryderon ynghylch pa mor gynhwysol yw rhai cyngorau, ynghylch y ffaith bod cyn lleied o etholiadau'n cael eu hymladd ac ynghylch y gweithdrefnau ar gyfer ymgynghori a chyfathrebu â phobl leol.
- 3.2. Yn y cyd-destun hwn, mae pennod 3 o Ran 7 yn mynd i'r afael â'r angen i roi hysbysiad cyhoeddus lle bydd seddau gwag ar gyngor cymuned i'w llenwi drwy gyfethol. Mae hyn yn arwyddocaol iawn oherwydd fe all effeithio ar i ba raddau y gall unigolion gymryd rhan yn y broses ddemocrataidd.

Darpariaethau'r Mesur

- 3.3. Mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol, lle bydd cyngor cymuned yn bwriadu llenwi sedd wag drwy gyfethol, i'r cyngor roi hysbysiad cyhoeddus o'r cyfle i gyfethol.
- 3.4. Mae'r gofyniad hwn yn berthnasol i'r canlynol:
 - (a) pŵer aelodau cyngor cymuned i gyfethol rhywun i lenwi sedd wag yn aelodaeth y cyngor oni cheir digon o enwebiadau i lenwi seddau gwag y cynhaliwyd etholiad ar eu cyfer, fel y darperir o dan adran 21(2)(a) o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1985.
 - (b) unrhyw bŵer neu ddyletswydd sydd gan gyngor cymuned i gyfethol rhywun i lenwi sedd wag yn aelodaeth y cyngor o dan reolau a wneir o dan adran 36(2) Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983.
- 3.5. Yn ôl y Mesur, mae'n ofynnol cael hysbysiad:
 - (a) os bydd sedd wag heb ei llenwi mewn etholiad, gan un o'r aelodau y bydd y cyngor yn ei awdurdodi at y diben hwnnw; ac
 - (b) os bydd sedd wag achlysurol, gan y cyngor.
- 3.6. Mae'r darpariaethau cyffredinol yn adran 232 o Ddeddf 1972 ynghylch rhybuddion cyhoeddus yn berthnasol. Yn ôl y rhain, mae'n ofynnol rhoi hysbysiad:
 - (a) drwy arddangos yr hysbysiad mewn man neu fannau amlwg yn ardal y cyngor;

- (b) mewn rhyw fodd arall, os o gwbl, ag sydd ym marn y cyngor yn ddymunol er mwyn rhoi cyhoeddusrwydd i'r hysbysiad.

3.7. Rhaid i'r hysbysiad gynnwys:

- (a) manylion cysylltu unigolyn y gellir cael rhagor o wybodaeth ganddo am y sedd wag a'r broses ar gyfer dethol rhywun;
- (b) pa wybodaeth arall bynnag ag y bydd y cyngor yn tybio'i bod yn briodol;
- (c) pa wybodaeth arall bynnag ag y mae gofyn ei chynnwys mewn unrhyw reoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru.

Nid oes gan Weinidogion Cymru gynlluniau i gyhoeddi rheoliadau ar hyn o bryd, ond byddant yn cadw golwg barhaus ar y mater.

3.8. Wrth roi'r swyddogaethau a ganlyn ar waith, rhaid i'r cynghorau roi sylw i'r canllawiau statudol a ganlyn.

Canllawiau Statudol

3.9. Cyhoeddwyd y canllawiau statudol hyn gan Weinidogion Cymru wrth roi eu pwerau ar waith o dan adran 117 o'r Mesur. Yn rhinwedd adran 117(1) o'r Mesur, rhaid i awdurdodau lleol roi sylw i'r canllawiau hyn gyda golwg ar gyhoeddi hysbysiad cyhoeddus lle bydd seddau gwag ar gyngor cymuned i'w llenwi drwy gyfethol.

3.10. Mae wedi'i dderbyn ers tro ei bod yn arfer dda hysbysebu cyfleoedd i gyfethol i gynghorau cymuned yn agored yn y gymuned leol. Mae hyn yn osgoi'r canfyddiad, boed hynny'n deg ai peidio, bod cynghorau cymuned yn 'siopau caeedig' sy'n llawn o'r 'dethol rai'. Mae'n bwysig bod cynghorau'n cynrychioli'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu ac mae Llywodraeth Cymru wedi cymryd camau mewn sawl maes i annog rhagor o amrywiaeth ymhlith y rheini sy'n sefyll am swydd. Mae hyn yn cynnwys darpariaethau yn y Mesur sy'n gofyn i brif gynghorau gasglu gwybodaeth am ymgeiswyr sy'n sefyll etholiad ar gyfer prif gyngor a chyngor cymuned.

3.11. Byddai'n well gan Lywodraeth Cymru, wrth gwrs, weld pob sedd wag ar gynghorau cymuned yn cael ei llenwi drwy etholiadau neu drwy isetholiadau lle bynnag y bo modd. Fodd bynnag, mae cyfethol yn ddull dilys o lenwi seddau gwag pan fydd yr angen yn codi.

3.12. Mae'r Mesur yn nodi'r gofynion sylfaenol ar gyfer hysbysu ynghylch llenwi seddau gwag drwy gyfethol. Fodd bynnag, wrth ystyried ymhle a sut y dylid hysbysu ynghylch hyn, dylai cynghorau gofio bod angen estyn allan i ystod mor eang o bobl yn eu cymuned ag sy'n bosibl. Yn benodol, dylai cynghorau ystyried sut orau mae cyrraedd y grwpiau hynny a fyddai'n draddodiadol gyndyn o geisio lle, neu'r rhai sy'n aml wedi'u tangynrychioli yn y drefn ddemocrataidd.

- 3.13. Dylai cynghorau ystyried y grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol a nodir yn Neddf Cydraddoldeb 2010 a mynd ati'n rhagweithiol i geisio cyrraedd pobl o fewn y categorïau hyn. Dylid defnyddio Cymraeg a Saesneg Clir wrth lunio hysbysiadau a gwybodaeth gyhoeddus er mwyn goresgyn unrhyw rwystrau sy'n ymwneud â'r defnydd o iaith gymhleth.
- 3.14. Bydd cynghorau'n dymuno ystyried y dull mwyaf priodol a chost effeithiol o roi cyhoeddusrwydd i gyfleoedd i gyfethol, ond nid yw rhoi hysbysiad ar hysbysfwrdd y cyngor yn unig yn debygol o fod yn ddigon yn y rhan fwyaf o achosion. Gellir ategu hyn drwy hyrwyddo cyfethol ar wefan y cyngor, tudalen Facebook neu ffrydiau Twitter cynghorwyr neu'r cyngor, llythyrau at sefydliadau lleol yn ogystal â thrwy'r wasg leol.

Cyfethol i lenwi sedd wag ar ôl etholiad

- 3.15. Dywed Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1985 ("Deddf 1985"), oni fydd nifer yr aelodau sydd newydd eu hethol i'r cyngor cymuned yn llai na'r hyn sy'n gworwm ar gyfer cyfarfodydd y cyngor, y *caiff yr aelodau hynny gyfethol unrhyw un neu unrhyw rai i lenwi'r sedd neu'r seddau gwag sydd yn dal heb eu llenwi.*
- 3.16. Aiff Deddf 1985 rhagddo i ddweud y caiff y cyngor sir / bwrdeistref sirol ar gyfer yr ardal wneud unrhyw beth er mwyn cynnal etholiad yn briodol neu i benodi pobl i'r cyngor i lenwi unrhyw seddau gwag sydd heb gael eu llenwi drwy'r drefn honno. Ni chaiff y cyngor sir / bwrdeistref sirol roi'r pwerau uchod ar waith nes bod 35 niwrnod wedi dod i ben ar ôl dyddiad yr etholiadau arferol (gweler adran 21(2) Deddf 1985). Nid yw'r ddyletswydd ar i'r swyddog etholiadau yn adran 39(1) Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 gynnal etholiad o fewn 35 niwrnod yn berthnasol yn y cyswllt hwn (gweler: adran 21(2) (c)).
- 3.17. Gyda golwg ar y geiriad a ddefnyddir yn adran 21(2) o Ddeddf 1985, dywed adran 116(3)(a) o'r Mesur ei bod yn rhaid i'r hysbysiad ynghylch bwriad y cyngor o gyfethol rhywun neu rywrai gael ei roi gan un o'r aelodau a awdurdodir gan fwyafrif aelodau eraill y cyngor cymuned at y diben hwnnw. Er y gallai hwn fod yn unrhyw aelod, efallai y bydd y cyngor yn credu ei bod yn briodol i'r hysbysiad fod yn enw cadeirydd y cyngor. Byddai angen i'r mater gael ei ystyried ymhlith busnes cyntaf y cyngor newydd yn ei gyfarfod blynyddol ar ôl yr etholiadau.

Cyfethol i lenwi sedd achlysurol

- 3.18. Gall sedd wag achlysurol godi am sawl rheswm, gan gynnwys ymddiswyddo neu fod rhywun heb dderbyn y sedd. Mae'r sedd yn dod yn wag yn awtomatig, ac nid oes yn rhaid ei datgan. Y cyfeiriad statudol ar gyfer llenwi seddau achlysurol yw adran 21 (2) (a) o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1985 ac unrhyw bŵer neu ddyletswydd sydd gan gyngor cymuned o dan reolau a wneir o dan adran 36(2) Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 i gyfethol rhywun i lenwi sedd wag.

3.19. Rhaid hysbysu'r sedd wag yn gyhoeddus er mwyn rhoi'r cyfle i'r gymuned enwebu ymgeiswyr i'w chynrychioli ar y cyngor. Os bydd deg etholwr yn rhoi hysbysiad o fewn pedwar diwrnod ar ddeg eu bod am gael etholiad, yna, rhaid cynnal etholiad. Os oes un ymgeisydd ar gyfer un sedd wag, etholir yr ymgeisydd hwnnw'n ddiwrthwynebiad. Dim ond os nad oes cais am etholiad y caiff y cyngor gyfethol unigolyn yn gynghorydd ac unwaith eto, rhaid hysbysu'r sedd yn gyhoeddus.

Pennod 4 Penodi Cynrychiolwyr Ieuenctid Cymunedol

Canllawiau statudol a gyhoeddir yn unol ag adran 120 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011

Cyflwyniad

- 4.1. Roedd Astudiaeth Aberystwyth yn dweud nad oedd cyfansoddiad cynghorau cymuned yng Nghymru yn adlewyrchiad teg o gyfansoddiad y boblogaeth drwyddi draw. Yn benodol, roedd yr astudiaeth yn gweld bod angen ymgysylltu â phobl ifanc, i gael eu barn am y meysydd hynny y mae'r cynghorau'n gyfrifol amdanynt sy'n effeithio arnynt hwy ac i'w hannog i gymryd rhagor o ran mewn llywodraeth leol pan fyddant yn ddigon hen i sefyll etholiad.
- 4.2. Mae Pennod 4 o Ran 7 yn galluogi cynghorau cymuned i benodi hyd at ddau unigolyn i fod yn gynrychiolwyr ieuenctid cymunedol. Mae'n ymateb i'r angen i hysbysu'r cyhoedd ei fod yn fwriad penodi cynrychiolydd ieuenctid cymunedol, ac i hysbysu pennaeth neu berchennog unrhyw ysgol sydd ag eiddo yn yr ardal, a phennaeth a chorff llywodraethu unrhyw sefydliad addysg bellach neu uwch sydd ag eiddo yn yr ardal.

Darpariaethau'r Mesur

- 4.3. Nid yw'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i gynghorau cymuned benodi cynrychiolwyr ieuenctid ond mae'n dweud beth y mae gofyn iddynt ei wneud os byddant yn dewis gwneud hynny. Mae'r gofynion hyn yn sicrhau, pan benderfynir penodi cynrychiolwyr ieuenctid, bod y cyfle i ddod yn gynrychiolydd ieuenctid ar gael i bob person ifanc cymwys yn y gymuned. Mae'r gofynion i hysbysu a rhoi gwybodaeth ynglŷn â phenodi cynrychiolwyr ieuenctid hefyd yn help i rieni, gwarcheidwaid a gweithwyr proffesiynol addysg i roi'r gefnogaeth orau i bobl ifanc yn eu hymgyrch etholiadol ac yn eu gwaith gyda'r cyngor ar ôl cael eu hethol.
- 4.4. Caiff cyngor cymuned benodi dau unigolyn ar y mwyaf i weithredu ar unrhyw adeg yn gynrychiolwyr ieuenctid cymunedol. Yn ôl y Mesur, diffinnir "cynrychiolydd ieuenctid cymunedol" fel unigolyn:
 - sydd dros 15 oed ond heb gyrraedd 26 oed; ac
 - y mae'r cyngor o'r farn ei fod yn addas i gynrychioli buddiannau unigolion sydd heb gyrraedd 26 oed ac sy'n byw, gweithio, neu'n cael addysg neu hyfforddiant yn ardal y gymuned.
- 4.5. Nid oes yn rhaid i gynrychiolwyr ieuenctid eu hunain fyw, gweithio neu gael addysg neu hyfforddiant yn ardal y gymuned o reidrwydd, ar yr amod bod y cyngor yn eu hystyried yn addas. Fe allai hyn fod yn arbennig o berthnasol lle na fydd gan gymuned gerllaw gyngor cymuned.

- 4.6. Ni chaiff cyngor cymuned benodi unigolyn yn gynrychiolydd ieuenctid oni fydd wedi cydymffurfio â gofynion yr hysbysiad yn adran 119 o'r Mesur. O dan adran 119, mae gofyn i gynghorau roi hysbysiad yn unol â gofynion adran 232 o Ddeddf 1972, wedi'i haddasu fel a ganlyn:
- (a) drwy arddangos yr hysbysiad mewn man neu fannau amlwg yn ardal y cyngor;
 - (b) drwy roi hysbysiad i bennaeth a pherchennog unrhyw ysgol sydd ag unrhyw ran o'i eiddo yn ardal y cyngor cymuned;
 - (c) drwy roi hysbysiad i bennaeth a chorff llywodraethu unrhyw sefydliad addysg bellach neu uwch, y mae unrhyw ran o'i eiddo yn ardal y cyngor cymuned;
 - (d) drwy roi hysbysiad mewn unrhyw fodd arall y gwelo'r cyngor cymuned yn dda er mwyn sicrhau bod cynifer o bobl ifanc cymwys ag y bo modd yn ymwybodol o'r bwriad o benodi cynrychiolwyr ieuenctid.
- 4.7. Rhaid i'r hysbysiad cyhoeddus gynnwys yr wybodaeth a ganlyn:
- manylion cysylltu unigolyn y gellir cael rhagor o wybodaeth am benodi cynrychiolwyr ieuenctid ganddo ynghyd â gwybodaeth am broses eu penodi;
 - unrhyw wybodaeth arall y gwelo'r cyngor cymuned yn briodol;
 - unrhyw wybodaeth arall y mae gofyn ei chynnwys yn yr hysbysiad drwy unrhyw reoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru.

Ar hyn o bryd, nid yw'n fwriad cyhoeddi rheoliadau o dan yr adran hon.

Canllawiau Statudol

- 4.8. Cyhoeddwyd y canllawiau statudol hyn gan Weinidogion Cymru wrth roi eu pwerau ar waith o dan adran 120 o'r Mesur.
- 4.9. Yn rhinwedd adran 120(1) o'r Mesur, rhaid i awdurdodau lleol roi sylw i'r canllawiau hyn wrth roi eu pwerau ar waith i benodi cynrychiolwyr ieuenctid cymunedol.
- 4.10. Mae'r Mesur yn cynnwys y gofynion sylfaenol ar gyfer rhoi hysbysiad ynghylch penodi cynrychiolwyr ieuenctid. Fodd bynnag, wrth ystyried ymhle a sut y dylid rhoi rhybudd, dylai cynghorau roi sylw i'r angen i estyn allan i ystod mor eang o bobl ifanc yn eu cymuned ag sy'n bosibl. Yn ogystal â hysbysu sefydliadau addysg, fel sy'n ofynnol o dan y Mesur, dylai cynghorau ystyried a oes sefydliadau ieuenctid eraill yn yr ardal y dylid ymgynghori â hwy hefyd.
- 4.11. Gwaith cynghorau fydd penderfynu ynghylch y broses dethol, telerau'r penodi a natur y rôl y bydd cynrychiolwyr ieuenctid yn ei chyflawni. Gallai'r olaf o'r rhain gynnwys, er enghraifft, gymryd rhan pan ystyrir cyfleusterau penodol ar gyfer pobl ifanc, neu fe allai ymestyn i roi "barn yr ifanc" am bob mater sydd gerbron y cyngor.

- 4.12. Er mai nod y darpariaethau hyn yn y Mesur yw annog pobl ifanc i gymryd rhan fel cynrychiolwyr cynghorau, nid ydynt yn atal y cyngor rhag defnyddio dulliau eraill o ymgysylltu â phobl ifanc megis cynghorau a fforymau ieuenctid eraill.
- 4.13. Ni fydd cynrychiolwyr ieuenctid cymunedol yn aelodau o'r cyngor cymuned sy'n eu penodi, ac felly, ni chânt bleidleisio ar faterion y cyngor.
- 4.14. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau i ddarparu, drwy reoliadau, fod cynrychiolwyr ieuenctid cymuned i'w trin yn aelodau o'r cyngor at ddibenion rhagnodedig. Ar hyn o bryd, nid yw'n fwriad gwneud rheoliadau o'r fath, ond adolygir hyn dros gyfnod yng ngoleuni rhoi'r ddeddfwriaeth ar waith.
- 4.15. Dylid nodi bod unigolion yn gymwys i ddod yn gynghorwyr cymuned llawn pan fyddant yn 18 oed. Rhaid i unigolion sydd rhwng 18 a 26 oed a etholir neu a gyfetholir yn gynghorwyr cymuned ysgwyddo dyletswyddau a breintiau llawn cynghorydd a rhaid iddynt gynrychioli buddiannau'r gymuned gyfan, nid dim ond pobl ifanc. Felly, ni all unigolion rhwng 18 a 26 sy'n dod yn gynghorwyr cymuned, naill ai drwy eu hethol neu drwy eu cyfethol, fod yn gynrychiolwyr ieuenctid cymunedol hefyd.

Archwiliadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (a elwid gynt yn archwiliadau'r Swyddfa Cofnodion Troseddol)

- 4.16. Ym mis Rhagfyr 2012, unwyd y Swyddfa Cofnodion Troseddol a'r Awdurdod Diogelu Annibynnol. Crëwyd y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn lle'r ddau gorff hynny. Gelwir archwiliadau'r Swyddfa Cofnodion Troseddol yn awr yn archwiliadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.
- 4.17. Gan mai dewis cyngor cymuned neu gyngor tref yw penodi cynrychiolwyr ieuenctid a phenderfynu beth yw eu rôl, gwaith y cyngor ei hun fydd penderfynu a oes ganddo'r hawl i ofyn am archwiliad Datgelu a Gwahardd, ac ar ba lefel, ar gyfer cynghorwyr, clercod a staff sy'n gweithio gyda chynrychiolwyr ieuenctid, a dibynnu ar amgylchiadau unigol y cyngor. Os bydd rôl y cynrychiolwyr ieuenctid yn newid, byddai angen i'r cyngor ailystyried ei safbwynt ynghylch archwiliadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.
- 4.18. Gall cynghorau cymuned a thref gael rhagor o wybodaeth am archwiliadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn <https://www.gov.uk/disclosure-barring-service-check> neu drwy anfon e-bost at y gwasanaeth yn customerservices@dbs.gsi.gov.uk Yn ogystal â hynny, mae'r Swyddfa Gartref wedi cyhoeddi canllawiau ynghylch cymhwystra ar gyfer archwiliadau'r Gwasanaeth <https://www.gov.uk/government/publications/dbs-check-eligible-positions-guidance>

Pennod 5 Adolygu Ardaloedd Cymunedol a Threfniadau Etholiadol

Cyflwyniad

- 5.1. Yn Neddf 1972, rhoddwyd dyletswydd ar brif gynghorau i gadw'u hardal o dan adolygiad er mwyn ystyried a ddylid gwneud argymhellion i Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru gyda golwg ar gyfansoddiad, diddymu neu newid cymunedau. Fodd bynnag, nid oedd dim amserlenni yn Neddf 1972 ynghylch pa mor aml y dylid cynnal adolygiadau o'r fath.
- 5.2. At hynny, roedd yn ddyletswydd ar brif gynghorau i adolygu'n rheolaidd y trefniadau etholiadol ar gyfer cymunedau eu hardal at ddibenion archwilio nifer y cynghorwyr ym mhob ardal gymunedol a, lle y bo'n briodol, eu dosbarthiad o fewn wardiau cymunedol ac i ystyried a ddylid newid y trefniadau hynny'n sylweddol. Unwaith eto, nid oedd dim amserlenni ynghylch pa mor aml y dylid cynnal adolygiadau o'r fath.
- 5.3. Er mwyn mynd i'r afael â'r materion hyn, mae Pennod 5 o Ran 7 yn cyflwyno darpariaethau'n pennu'r amserlenni ar gyfer prif gynghorau sy'n dweud pa mor aml y bydd gofyn iddynt adolygu ardaloedd cymunedol a chyflwyno adroddiad i'r Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol.

Darpariaethau'r Mesur

- 5.4. Roedd y Mesur yn cynnwys darpariaethau yn ymwneud ag adolygu ardal gymunedol a threfniadau etholiadol. Disodlwyd y rhain ers hynny gan ddarpariaethau yn Neddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013, a cheir manylion hynny isod.

Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013

- 5.5. Mae Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 yn cynnwys darpariaethau ynghylch adolygu trefniadau etholiadol ac adolygu cymunedau. Mae'r Bil yn ailenwi'r Comisiwn Ffiniau yn Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru ac at hwnnw y mae'r gair 'Comisiwn' yn cyfeirio isod.

Adolygiadau prif gynghorau o ardaloedd cymunedol

- 5.6. Mae'r Ddeddf yn tynhau'r gofynion ar gyfer adolygiadau a nodir yn adran 122 o'r Mesur ac felly, ar ôl cael ei hysbysu bod adolygiad etholiadol ar y gweill, bydd gofyn i brif gyngor sicrhau bod ei gymunedau wedi cael eu hadolygu'n ddiweddar mewn modd sy'n bodloni'r Comisiwn. Os bydd prif gyngor yn methu â chydymffurfio â'r gofyniad hwn, bydd y Comisiwn yn cael ei rymuso i gynnal adolygiad cymunedau a chodi tâl ar y prif gyngor am wneud hynny. Bydd y Comisiwn hefyd yn cael ei rymuso i gyhoeddi canllawiau i'r prif gyngor ynghylch amseru a phroses adolygiadau ynghyd â'r egwyddorion i'w dilyn.

Adolygiadau prif gynghorau o drefniadau etholiadol

- 5.7. Yn lle'r amserlen deg i bymtheg mlynedd ar gyfer adolygu prif gynghorau, mae'r Ddeddf yn cyflwyno cylch parhaus o adolygiadau o drefniadau etholiadol, gan ddechrau yn 2014. Ni cheir cyhoeddi adroddiad terfynol nac adolygiad o drefniadau etholiadol yn ystod y naw mis cyn y diwrnod arferol ar gyfer etholiadau lleol, er mwyn sicrhau bod modd rhoi unrhyw newidiadau ar waith mewn da bryd ar gyfer unrhyw etholiad sydd ar y gweill.
- 5.8. Dylid nodi, ni waeth pwy sy'n cynnal yr adolygiad, y dylid llunio adroddiad drafft ar gyfer ymghyngori, gan gynnwys unrhyw awdurdodau lleol y mae'n berthnasol iddynt.
- 5.9. Ceir rhagor o fanylion am y Ddeddf ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol <http://www.senedd.cynulliadcymru.org/mglssueHistoryHome.aspx?Ild=5052&AIID=8648>

Pennod 6 Pwerau Cynghorau Cymuned i hybu Llesiant

Cyflwyniad

- 6.1. Yn Neddf Llywodraeth Leol 2000 ('Deddf 2000') crëwyd pŵer dewisol sy'n galluogi awdurdodau lleol yng Nghymru, sef cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol, i wneud unrhyw beth sydd yn eu barn hwy'n debygol o hybu neu wella llesiant economaidd, cymdeithasol neu amgylcheddol eu hardal a/neu'r bobl ynddi, ar yr amod nad oes deddfwriaeth arall sy'n eu rhwystro rhag gwneud hynny.
- 6.2. Cyrff statudol sy'n gweithredu o fewn fframwaith statudol yw awdurdodau lleol. Cyn i'r pŵer i hybu llesiant ddod i rym, ni allai awdurdodau lleol ond wneud y pethau hynny y cawsant eu grymuso i'w gwneud drwy bwerau, dyletswyddau a swyddogaethau statudol penodol. Roedd hyn yn aml yn creu ansicrwydd ynghylch hyd a lled y pŵer 'galluogi' a oedd gan awdurdodau lleol. Felly, roedd cyflwyno'r pŵer llesiant yn galluogi awdurdodau lleol i gael pŵer dewisol eang i ddatblygu rhagor ar eu rôl i arwain eu cymuned ac i ddarparu gwasanaethau gwell a mwy ymatebol.
- 6.3. Barn Llywodraeth Cymru oedd y byddai ymestyn pŵer llesiant i gynghorau cymuned yn rhoi gwell cyfle iddynt ddatblygu eu rôl yn hybu ac yn gwella llesiant eu hardaloedd, gan gynnwys gweithio mewn partneriaeth â phrif gynghorau a rhanddeiliaid eraill. Yn y cyd-destun hwn, Mae Pennod 6 o Ran 7 yn ymestyn pŵer llesiant i gynghorau cymuned.

Darpariaethau'r Mesur

- 6.4. Mae'r Mesur yn diwygio Deddf 2000 i gynnwys cynghorau cymuned yn y rhestr o awdurdodau lleol y rhoddir pŵer llesiant iddynt. Gellir rhoi'r pŵer ar waith ar gyfer ardal y cyngor cymuned i gyd neu ar gyfer unrhyw ran ohoni ac yng nghyswllt pawb neu unrhyw rai o'r bobl sy'n preswyllo neu'n bresennol yn yr ardal.
- 6.5. Wrth benderfynu a ddylai roi'r pwerau hyn ar waith, neu sut i wneud hynny, rhaid i gyngor cymuned roi sylw i'r strategaeth gymunedol ar gyfer yr ardal a gyhoeddwyd o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 gan brif gyngor yr ardal. O safbwynt ymarferol, o fis Ebrill 2013 ymlaen, disodlir y strategaeth gymunedol gan un cynllun integredig, a fydd yn cynnwys y dyletswyddau cynllunio statudol gyda golwg ar gynllunio cymunedol, plant a phobl ifanc, iechyd, gofal cymdeithasol a llesiant a diogelwch cymunedol.
- 6.6. At hynny, mae'r Mesur yn galluogi Gweinidogion Cymru, drwy orchymyn, i addasu unrhyw ddeddfiad sydd yn eu barn hwy'n atal neu'n llesteirio cynghorau cymuned rhag rhoi'r pŵer llesiant ar waith o dan Ddeddf 2000.

Canllawiau Statudol

- 6.7. Mae canllawiau statudol wedi'u cyhoeddi gan Weinidogion Cymru o dan Adran 3(5) o Ran 1 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000. Yn rhinwedd Adran 3(5) o Ran 1 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000, rhaid i awdurdodau lleol roi sylw i'r canllawiau hyn.
- 6.8. Mae'r canllawiau Statudol hyn ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru <http://wales.gov.uk/topics/localgovernment/publications/statutory-guidance-ese-la-act-2000/?skip=1&lang=cy>

Pennod 7 Grantiau i Gynghorau Cymuned

Cyflwyniad

- 7.1. Mae Adran 31 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 yn rhoi pŵer cyffredinol i Weinidogion Cymru dalu grant at wariant prif gyngor, h.y. cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol.
- 7.2. Daw'r rhan fwyaf o incwm cyngor cymuned drwy gyfrwng praesept y dreth gyngor o dan Adran 41 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992. Fe allai rôl datblygu cyngorau cymuned greu gofynion newydd ar gyllid cyngorau y tu allan i gwmpas praesept y dreth gyngor. Argymhelliad adroddiad Aberystwyth oedd y dylai Llywodraeth Cymru archwilio mecanweithiau amgen posibl ar gyfer ariannu cyngorau cymuned yn uniongyrchol, megis drwy ddefnyddio grantiau uniongyrchol.
- 7.3. At y diben hwn, mae Pennod 7 o Ran 7 yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddarparu arian grant uniongyrchol i gyngorau cymuned, a hynny'n debyg i'r hyn sy'n digwydd eisoes yng nghyswllt y prif gyngorau.

Darpariaethau'r Mesur

- 7.4. Er nad oes cynlluniau penodol i ddefnyddio'r pŵer hwn ar hyn o bryd, mae'r Mesur yn cyflwyno darpariaeth sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i dalu grant i gyngor cymuned at y gwariant a ysgwyddwyd neu a ysgwyddir ganddo.
- 7.5. Gweinidogion Cymru a fyddai'n penderfynu faint o grant a delid a sut y byddai'r taliad hwnnw'n cael ei wneud. Gellid talu'r grant yn ddarostyngedig i amodau sy'n ymwneud â defnyddio'r grant a'r amgylchiadau ar gyfer ad-dalu'r grant cyfan neu ran ohono, neu'n ddarostyngedig i amodau eraill.

Pennod 8 Cytundebau Siarter Enghreifftiol rhwng Awdurdodau Lleol a Chynghorau Cymuned

Cyflwyniad

- 8.1. Yn Astudiaeth Aberystwyth, gwelwyd bod ansawdd y berthynas rhwng prif gynghorau a'u cynghorau cymuned yn amrywio'n sylweddol, nid dim ond o'r naill sir i'r llall, ond o fewn gwahanol adrannau prif gyngor a'r cynghorau cymuned yn eu hardal. At hynny, ar y pryd, dim ond i ryw ddau o bob pump cyngor cymuned yr oedd eu prif gyngor wedi dirprwyo unrhyw swyddogaethau.
- 8.2. Er mwyn mynd i'r afael â'r materion hyn, argymhelliad Astudiaeth Aberystwyth oedd y dylai Llywodraeth Cymru ddeddfu i'w gwneud yn ofynnol i bob awdurdod lleol gyhoeddi cytundeb siarter â'u cynghorau cymuned yn eu hardaloedd, gan gynnwys gweithdrefnau ar gyfer dirprwyo ystod benodol o swyddogaethau i gynghorau cymuned achrededig a chan ddisgrifio gweithdrefnau ar gyfer rhyngweithio rhwng awdurdodau lleol a chynghorau cymuned.
- 8.3. Yn y cyd-destun hwn, Mae Pennod 8 o Ran 7 yn cyflwyno darpariaethau sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru gyflwyno siarteri gorfodol rhwng prif gynghorau a'u cynghorau cymuned.

Darpariaethau'r Mesur

- 8.4. Mae'r Mesur yn galluogi Gweinidogion Cymru, drwy orchymyn, i greu cytundeb siarter enghreifftiol i'w ddefnyddio rhwng prif gyngor a chyngor cymuned ar gyfer cymuned neu gymunedau yn ei ardal. Ystyr cytundeb siarter yn y cyswllt hwn yw cytundeb ar y cyd sy'n disgrifio sut y rhoddir gwahanol swyddogaethau'r cynghorau ar waith at ddibenion cadw a chynnal y cydweithredu rhyngddynt.
- 8.5. At hynny, caiff Gweinidogion Cymru, drwy gyfarwyddyd, ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol a chynghorau cymuned fabwysiadu'r siarter enghreifftiol hon. Fe all cyfarwyddyd o'r fath ei gwneud yn ofynnol i'r cynghorau dan sylw geisio cytundeb ynghylch sut mae rhoi swyddogaethau ar waith yn unol â holl ddarpariaethau'r cytundeb siarter enghreifftiol, neu'n unol â rhai ohonynt, fel y dywedir yn y cyfarwyddyd.
- 8.6. O dan Adran 132 o'r Mesur, caiff Gweinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau statudol. Rhaid i awdurdodau lleol roi sylw dyledus i'r canllawiau hyn pan fyddant yn gweithredu o dan gyfarwyddyd Gweinidogion Cymru sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt fabwysiadu siarteri enghreifftiol.

Y Sefyllfa Bresennol

- 8.7. Mae Gweinidogion Cymru yn cadarnhau egwyddor argymhelliad Astudiaeth Aberystwyth ac yn annog yn gryf y dylid datblygu cytundebau

siarter yn wirfoddol fel ffordd o sefydlu cydweithio effeithiol rhwng y prif gynghorau a'u cynghorau cymuned. Mae Gweinidogion Cymru'n croesawu'n fawr iawn y gwaith sydd wedi'i wneud eisoes hyd yn hyn i ddatblygu ac adolygu siarteri lle'r oeddent yn bodoli eisoes.

- 8.8. Mewn ymateb i argymhelliad Astudiaeth Aberystwyth, datblygodd a chyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau anstatudol, *Cymuned ar y Cyd - Meithrin Cydberthynas a Siarteri ar gyfer Awdurdodau Unedol a Chynghorau Cymuned a Thref* ('Cymuned ar y Cyd') yn 2008. <http://wales.gov.uk/topics/localgovernment/publications/asharedcommunity/?skip=1&lang=cy>. Mae'r rhain yn cynnig pecyn adnoddau o ganllawiau ac arferion da i helpu prif gynghorau a chynghorau cymuned ac maent yn cynnwys siarter enghreifftiol y gall prif gynghorau ddewis ei mabwysiadu. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi gweithio'n glos gydag Un Llais Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i sicrhau bod cymorth ymarferol ar gael i gynghorau wrth iddynt fwrw ymlaen â'u siarteri.
- 8.9. Er bod y Mesur yn galluogi Gweinidogion Cymru i'w gwneud yn ofynnol i brif gynghorau a chynghorau cymuned fabwysiadu siarter enghreifftiol, nid yw'n fwriad defnyddio'r pŵer hwn ar hyn o bryd. Mae siarteri'n dal yn ddewisol ac mae'n bwysig mai'r unig reswm dros roi siarter ar waith yw bod y prif gyngor a'u cyngor cymuned yn ymroi'n llwyr iddi. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod nad yr opsiwn mwyaf dymunol bob tro fydd cael cytundeb siarter ac mae'n pwysleisio pa mor bwysig yw cynnal deialog gonest ac agored rhwng prif gyngor a'u cynghorau cymuned er mwyn gweld beth yw'r ffordd fwyaf priodol iddynt weithio yn eu hardal.
- 8.10. Os penderfynir datblygu cytundeb siarter, argymhellir bod awdurdodau lleol a chynghorau cymuned yn rhoi sylw dyledus i ganllawiau Cymuned ar y Cyd, sydd ar gael ar wefan y Llywodraeth.
- 8.11. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i fonitro'r cynnydd a wnaiff y prif gynghorau o ran datblygu cytundebau siarter ac fe gaiff Gweinidogion Cymru ailystyried y penderfyniad ynghylch defnyddio'r darpariaethau sydd ym Mhennod 8 os tybir bod angen hynny.
- 8.12. Er bod Llywodraeth Cymru yn credu bod rôl i gynghorau cymuned o ran darparu ystod o wasanaethau yn eu hardaloedd lleol, mae'n credu mai dewis gwirfoddol yw dirprwyo gwasanaethau a rhaid i hynny fod yn ganlyniad i gytundeb lleol rhwng yr awdurdod lleol a'r cyngor cymuned neu'r cyngor tref. Dylid seilio unrhyw drefniant dirprwyo gwasanaethau ar wella'r ffordd y darperir gwasanaethau'n lleol, gan gynnal neu wella gwerth am arian ar yr un pryd. Er y gall cytundeb siarter gynnig fframwaith ar gyfer dirprwyo gwasanaethau, nid oes dim cysylltiad uniongyrchol rhwng y ddau; nid yw cytundeb siarter o reidrwydd yn gytundeb i ddirprwyo gwasanaethau i gyngor cymuned.

Pennod 9 Cynlluniau ar gyfer Achredu Ansawdd mewn Llywodraeth Gymunedol

Cyflwyniad

- 9.1. Roedd Astudiaeth Aberystwyth yn argymhell y dylai cyngor cymuned sy'n dymuno ysgwyddo swyddogaethau dirprwyedig prif gyngor allu dangos ei fod yn medru cyflawni swyddogaethau o'r fath yn effeithiol cyn llofnodi cytundeb lefel gwasanaeth. Roedd ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad Aberystwyth yn dweud nad oedd yn derbyn bod lle i gael system achredu ganolog ar gyfer cynghorau cymuned, ond y byddai'n cadw'r mater o dan adolygiad.
- 9.2. Yn groes i hynny, yn Lloegr, rhaglen genedlaethol yw'r '*Cynllun Cynghorau Plwyf a Thref o Ansawdd* (er nad yw'n statudol). Mae ei safonau wedi'u pennu gan randdeiliaid y cynllun, gan gynnwys Cymdeithas Genedlaethol y Cynghorau Lleol (NALC), Cymdeithas Clercod y Cynghorau Lleol, Y Gymdeithas Llywodraeth Leol, Comisiwn Cymunedau Gwledig, ac adrannau Llywodraeth y Deyrnas Unedig megis Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig a'r Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol. Mae'r cynllun yn cael ei weithredu drwy gyfrwng cymdeithasau sirol NALC.
- 9.3. Nid yw Gweinidogion Cymru'n gweld dim rheswm pam na ellid datblygu cynllun achredu ansawdd cenedlaethol yng Nghymru a'i weithredu ar sail anstatudol gan y cyrff cynrychioladol, fel sy'n digwydd yn Lloegr. Fodd bynnag, tybiwyd y byddai'n ddoeth manteisio ar y cyfle yn y Mesur i sicrhau pŵer galluogi i Weinidogion Cymru gyflwyno cynllun achredu statudol ar gyfer cynghorau cymuned yng Nghymru pe tybid bod hyn yn briodol rywbryd yn y dyfodol. Byddai cynllun o'r fath yn debygol o fod yn debyg o ran ei natur i hwnnw sydd ar waith yn Lloegr.

Darpariaethau'r Mesur

- 9.4. Mae'r Mesur yn rhoi pŵer wrth gefn i Weinidogion Cymru sefydlu, drwy reoliadau, gynllun achredu ar gyfer cynghorau cymuned.
- 9.5. Wrth wneud rheoliadau ar gyfer cynllun achredu, rhaid i Weinidogion Cymru sicrhau bod y rheoliadau'n gosod meini prawf i'w cyflawni gan gynghorau cymuned sy'n gwneud cais am achrediad. Gall y rhain gynnwys, ymhlith pethau eraill:

- canran aelodau'r cyngor sy'n dal swydd yn rhinwedd cael eu hethol fel y'i disgrifir yn adran 35(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (ethol cynghorwyr cymuned);
- cymwysterau swyddogion y cyngor, a'r hyfforddiant a roddir iddynt;
- hyfforddiant i aelodau'r cyngor a chynrychiolwyr ieuencid cymunedol;
- ppa mor aml y cynhelir cyfarfodydd y cyngor a'r cyhoeddusrwydd a roddir i gyfarfodydd (cyn ac ar ôl eu cynnal);

- cynnwys pobl yng ngwaith y cyngor cymuned;
- annog pobl i wella llesiant y gymuned neu'r cymunedau y sefydlwyd y cyngor ar ei gyfer;
- adroddiadau blynyddol;
- cyfrifon

- 9.6. Yn ogystal â hynny, rhaid i'r rheoliadau bennu'r gofynion ar gyfer cais dilys am achrediad; pennu ffioedd ar gyfer cais am achrediad; a gosod y seiliau ar gyfer dileu'r statws achredu a ddyfarnwyd ac ar gyfer adolygu'r statws achredu a ddyfarnwyd.
- 9.7. Mae'r Mesur yn galluogi Gweinidogion Cymru i drefnu i rywun arall (nid awdurdod cyhoeddus o anghenraid) weithredu'r cynllun achredu.
- 9.8. Yn olaf, fe allai Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, ddileu neu newid gofynion statudol sy'n llesteirio cynghorau cymuned achrededig (er enghraifft, oherwydd eu bod wedi cyflawni safon perfformiad penodol) a gosod rhwystrau yn ffordd cynghorau cymuned sydd heb eu hachredu (er enghraifft, oherwydd na allant ddangos eu bod wedi cyflawni safon arbennig).